

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG  
CYNGOR SIR GAR (2018-2033)  
ARCHWILIAD**

---

**RHESTR O FATERION A CWESTIYNAU**

**Mater 6: Cysylltiadau Cryf – Newid yn yr Hinsawdd, Ynni  
Adnewyddadwy, Trafnidiaeth, Mwynau a Gwastraff**

*Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a datblygu carbon isel ynghyd â thrafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd sy'n gadarn, yn gyfiawn ac yn gyson â gofynion y polisi cenedlaethol?*

*Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Adnewyddadwy*

**1. A yw Polisi SP16 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer sicrhau bod cynigion datblygu yn ymateb i'r hyn sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau ac yn lleihau'r achosion a'r effeithiau hyn?**

Ydy, fel polisi strategol, ystyrir y bydd Polisi SP16 yn darparu fframwaith priodol. Er bod ethos y Cynllun yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a bod pob polisi yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn gynaliadwy, mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi cynigion sy'n ystyried newid yn yr hinsawdd yn benodol. Bydd Polisi SP16, ynghyd â'r polisiâu manwl sydd oddi tano, yn sicrhau bod cynigion datblygu yn sensitif i effeithiau newid yr hinsawdd.

Mae'r Polisi yn ceisio cefnogi cynigion datblygu os ydynt yn ymateb neu'n addasu i'r newid hinsawdd, yn cynyddu'r gallu i wrthsefyll hynny ac yn lleihau ei achosion hyd yr eithaf. Mae'r polisi'n nodi meini prawf sy'n ceisio sicrhau bod cynigion yn ystyried eu heffaith ar y newid hinsawdd drwy fecanweithiau amrywiol fel trafndiaeth gynaliadwy, llifogydd, y defnydd o ynni, datrysiadau dylunio sy'n ymateb i'r hinsawdd a diogelu a gwella Seilwaith Gwyrdd a Glas.

**2. A yw'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth gredadwy ac yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?**

Yn unol â'r dull a nodir yn "Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr", mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) (dogfen gyflwyno CSD27) yn seiliedig ar dystiolaeth gredadwy ac yn gyson â'r hyn sy'n ofynnol mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Wrth baratoi'r AYA, casglwyd rhagdybiaethau a data ar ei gyfer o ffynonellau sefydledig.

Ystyrir amryw o dechnolegau ynni adnewyddadwy o fewn yr AYA: ynni'r gwynt; gwres a phŵer cyfunedig biomas; llosgi (ynni o wastraff); treulio anaerobig; ynni dŵr; ffermydd solar ffotofoltäig; ynni adnewyddadwy wedi'i integreiddio mewn adeiladau. Ystyrir y potensial i ddefnyddio gwres hefyd yn yr AYA.

Mae'r AYA yn cyfrifo'r defnydd cyfredol o ynni a'r defnydd ohono yn y dyfodol, a'r cyfraniad posibl a ddaw o ddatrysiadau ynni adnewyddadwy. Mae ardaloedd chwilio lleol wedi'u nodi yn yr AYA ar gyfer ynni solar, ac mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y CDLI Diwygiedig.

Mae ardal fawr o'r Sir wedi'i dynodi yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol, fel ardal wedi'i hasesu ymlaen llaw ar gyfer ynni'r gwynt. Ysgrifennwyd yr AYA cyn cyhoeddi'r drafft "Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040", ond fe'i diweddarwyd i roi ystyriaeth i gynnwys y ddogfen honno fel sail ar gyfer yr Ail CDLI Adneuo Diwygiedig.

### **3. A yw'r Cynllun yn darparu cydbwysedd priodol rhwng gwireddu potensial yr ardal ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a diogelu tirwedd ac amgylchedd naturiol a hanesyddol y Sir?**

Wrth asesu potensial y Sir am ynni adnewyddadwy, mapiodd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) gyfyngiadau a oedd yn cynnwys dynodiadau statudol (fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac ati), a dynodiadau anstatudol (fel Coetiroedd Hynafol, adeiladau presennol, seilwaith trafniadaeth pwysig ac ati). Yn sgil yr ymarfer mapio cyfyngiadau hwn, nodwyd cyfleoedd am ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol. Mae ardaloedd chwilio lleol wedi'u nodi ar gyfer ynni solar, ond ni nodwyd unrhyw yr un ar gyfer ynni'r gwynt. Ceir rhagor o fanylion am yr ymarfer mapio yn yr AYA, dogfen gyflwyno CSD27.

Mae polisiâu CCH1 a CCH2 wedi'u geirio'n benodol i sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol na chymeriad y dirwedd.

### **4. A yw Polisi CCH1 yn darparu fframwaith polisi priodol ynghylch gwireddu potensial Sir Gaerfyrddin ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy o fewn ardal a gafodd ei hasesu ymlaen llaw ac ardaloedd chwilio lleol?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau ynghylch Polisi CCH1, y mae rhai ohonynt wedi'u nodi isod:

- *“Mae gan bob un o'r Ardaloedd Chwilio yng Nghymru gapasiti gosod o fwy na 10MW, sef y trothwy a bennwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Dylid diwygio Polisi CCH1 a'i gyfiawnhad rhesymegol i egluro bod datblygiadau ynni ar raddfa fawr (o 10MW+) yn cael eu pennu gan Bolisi 18 yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a bod y*

*datblygiadau hyn yn dderbyniol oddi mewn ac oddi allan i ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Lleol. Bydd hyn yn helpu i egluro hierarchaeth y cynllun datblygu ac yn ychwanegu eglurder.*

- *Gan y bydd pob cais am Ddatblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn cael eu hystyried ar sail Polisi 18 yng Nghymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, nid yw'n briodol i bolisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol amharu ar allu datblygiadau gwynt graddfa fawr i ddod yn eu blaenau yn yr Ardaloedd a Gyn-aseswyd. Gan hynny, dylid dileu'r gofyniad ym Mholisi CCH1 i ddatblygiad yn yr Ardaloedd a Gyn-aseswyd fodloni meini prawf ychwanegol, fel y'u nodir yn y polisi ei hun (meini prawf a-c)."*

O ganlyniad i'r sylwadau hyn, cynigir cael gwared â'r cyfeiriad at ardaloedd a gyn-aseswyd o fewn y Polisi.

Er bod y sylwadau uchod hefyd yn cyfeirio at ddatblygiadau 10MW ac uwch mewn ardaloedd chwilio lleol, gall achosion godi lle gallai datblygiadau ynni solar o fewn yr ardaloedd hyn ddod yn eu blaenau ar ffurf cynlluniau llai na 10MW ar wahân. Ystyrir felly fod y polisi ar ei ffurf bresennol yn creu fframwaith priodol ar gyfer cynlluniau o'r fath. Byddai'r cyfiawnhad rhesymegol ar gyfer y polisi yn elwa ar gyfeiriad i'r ffaith y penderfynir ynghylch unrhyw ddatblygiadau dros 10MW o fewn ardaloedd chwilio lleol yn unol â Chymru'r Dyfodol.

a) **A yw'r polisi'n gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol? A ddylid diwygio ei gyfiawnhad rhesymegol er mwyn cynnwys esboniad ynghylch gofynion Cymru'r Dyfodol?**

Gweler yr ateb uchod i gwestiwn 4.

b) **A yw'r gofynion mewn perthynas â 'ffermydd gwynt ar raddfa fawr' yn angenrheidiol?**

Mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, fel y trafodwyd yng nghwestiwn 4, cynigir dileu'r cyfeiriad at "ffermydd gwynt ar raddfa fawr".

c) **A ddylai'r ardaloedd chwilio lleol ar gyfer ynni'r haul gael eu rhestru yn y polisi?**

Mae'r ardaloedd chwilio lleol wedi'u nodi ar hyn o bryd yn y cyfiawnhad rhesymegol dros y polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r sylw a ganlyn:

*"Nodwch ym Mholisi CCH1 y tair Ardal Chwilio Leol ar gyfer solar, a'r cyfraniad o bob ardal. "*

Gellir ychwanegu'r ardaloedd at y polisi os tybir bod angen.

**d) Sut yr asesir yr effaith o ddatblygu ar Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a phriddoedd â llawer o garbon mewn ardaloedd chwilio lleol?**

Wrth nodi'r ardaloedd chwilio lleol, roedd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (dogfen gyflwyno CSD 27) yn hidlo tir o Raddau Amaethyddol 1, 2 a 3a, a dim ond tir o Raddau Amaethyddol 3b, 4 a 5 sydd wedi cael ei ystyried i'w ddefnyddio ar gyfer ffermydd solar ffotofoltäig. Mae ardaloedd a nodwyd yn "fawn trwchus" hefyd wedi'u hepgor o'r broses dethol safleoedd.

**5. A yw'r targed ar gyfer cynhyrchu ynni sydd wedi'i gynnwys yn Nhablau 9 a 10 yn briodol neu a ddylai fod yn fwy uchelgeisiol?**

Mae Tablau 9 a 10 wedi'u tynnu o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) (dogfen gyflwyno CSD 27) ac ystyrir bod y targed yn briodol ac yn realistig. Mae Adran 11.3 yr AYA yn manylu ar y cyfrifiadau a'r rhagdybiaethau sydd wedi cynhyrchu'r targedau hyn. Mae'r tablau'n manylu ar y cyfraniadau ynni adnewyddadwy realistig y gellid eu gwneud tuag at gwrdd fodloni cyfran o gyfanswm y galw am ynni yn y Sir erbyn 2033, ar sail resymegol.

**6. A yw Polisi CCH2 yn darparu dull priodol ar gyfer rheoli datblygu ynni adnewyddadwy y tu allan i ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ac ardaloedd chwilio lleol? A sut fydd effaith datblygu ar Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a phriddoedd â llawer o garbon yn cael ei hasesu?**

Mae polisi CCH2 yn berthnasol i bob datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ac ystyrir ei fod yn cynnig mecanwaith priodol i reoli datblygiad ynni adnewyddadwy. Nod y polisi yw annog datblygiadau ynni adnewyddadwy a'u lleoli mewn lleoliadau priodol. Mae'r polisi yn gosod nifer o feini prawf y mae'n rhaid i ddatblygiadau gydymffurfio â nhw er mwyn sicrhau bod datblygiadau o'r fath yn briodol.

Nid yw tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas na thir carbon isel wedi cael eu hystyried yn rhan o'r polisi, ac os ystyrir bod hynny'n ffactor pwysig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, gellir ei ychwanegu at y polisi.

**7. A yw gofynion CCH3 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac a ydynt yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ydynt, mae gofynion Polisi CCH3 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol.

Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r nodau trosfwaol ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n cynghori y dylid trosglwyddo i drafnidiaeth ffordd allyriadau isel neu ddi-allyriadau yn rhan o agenda ehangach ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae Polisi CCH3 yn cefnogi hyn ei gwneud yn orfodol gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn datblygiadau preswyl ac amhreswyl newydd, gan adlewyrchu'r pwyslais cenedlaethol ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r polisi'n ystyried nodweddion penodol Sir Gaerfyrddin, yn enwedig ei natur wledig yn bennaf, sy'n cyflwyno heriau unigryw ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r gofynion, fel darparu pwyntiau gwefru mewn cartrefi gyda mannau parcio dynodedig a sicrhau bod pwyntiau gwefru yn cael eu gosod ar 10% o fannau parcio mewn datblygiadau amhreswyl, yn fesurau ymarferol sy'n ymateb i'r heriau hyn. Mae cynnwys darpariaethau ar gyfer pwyntiau gwefru cyflym lle gall y rhwydwaith trydan lleol eu cynnal hefyd yn adlewyrchu ystyriaeth o allu presennol y seilwaith.

Mae'r polisi hefyd yn cydnabod datblygiad parhaus y grid trydan ac yn caniatáu hyblygrwydd lle nad yw'r capasiti cyfredol neu lle na fydd y capasiti a ragwelir yn ddigonol i fodloni gofynion y polisi. Mae'r dull hwn yn dangos dealltwriaeth o natur esblygol seilwaith cerbydau trydan ac yn sicrhau bod y polisi'n parhau i fod yn realistig ac yn addasadwy, sy'n ychwanegu eto at ei gadernid.

## **8. A yw Polisi CCH4 yn angenrheidiol ac a yw'n darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer rheoli ansawdd dŵr ac amddiffyn adnoddau dŵr yn y Sir?**

Ydy. Yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd), mae elfennau allweddol o'r polisi hwn wedi'u cynnwys yn y cynllun gyda'r bwriad o osgoi effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd penodol y gallai gweithredu'r cynllun fel arall effeithio ar eu nodweddion cymhwys.

Drwy gydol y broses o wneud cynllun, mae CCH4 wedi cael ei gryfhau mewn ymgynghoriad â CNC, ac fe'i datblygwyd yn unol â fersiwn 3 o'i gyngor i awdurdodau cynllunio ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cawraeth Arbennig afonol sy'n sensitif i ffosfforws. Cyfeirir at ymateb y Cyngor mewn perthynas â Sesiwn Gwrandawriad 1 a chwestiwn 4 a 20 yr Arolygydd.

Mae dibynnu ar y polisi hwn (sydd, i bob pwrpas, yn fesur lliniaru wedi'i fewnosod) yn ddull priodol o gynnal cadernid y cynllun yn unol â'r amodau yn yr ARhC, er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar hygrededd y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol.

Yn ogystal â hynny, mae CCH4 yn gydnaws â phwyslais PCC ar gydnabod rhinweddau amgylcheddol lleoedd drwy warchod adnoddau dŵr ac annog defnydd effeithlon ohono, yn ogystal â gweithredu datrysiadau seiliedig ar natur drwy ddarparu Seilwaith Gwyrdd a Glas fel yr anogir ym mharagraff 6.6.6. Cynigir y bydd

y polisi hwn yn cael ei gefnogi gan Ganllawiau Cynllunio Atodol y bwriedir eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r Cynllun.

Gan nodi'r cyfeiriad at fersiwn 4 o ganllawiau CNC ar y symudiad oddi wrth lygredd ffosffad tuag at faetholion, gallai'r CDLI Diwygiedig elwa ar fân ddiwygiadau i eiriad CCH4. O ganlyniad i hyn, awgrymir y dylid newid y polisi i adlewyrchu 'maetholion' yn hytrach na ffosffadau er mwyn sicrhau cysondeb â'r canllawiau hyn. Bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu nodi yn y Newidiadau Materion sy'n Codi.

### **9. A yw gofynion Polisi CCH5 yn wahanol yn lleol neu a ydynt yn efelychu gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?**

Mae'r Polisi wedi'i gynnwys i roi arweiniad mewn perthynas â datblygu a pherygl llifogydd. Ac ystyried difrifoldeb y mater a'r heriau y mae'n eu hachosi, mae polisi penodol wedi cael ei gynnwys yn y cynllun er mwyn helpu i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mewn modd sy'n lleihau perygl llifogydd ar ddatblygiadau newydd. Fodd bynnag, os ystyrir bod y Polisi yn ailadrodd polisi cenedlaethol a'i fod yn ddiangen, gellir ystyried y mater ymhellach yn ystod yr Archwiliad.

Cydnabyddir hefyd fod y canllawiau cenedlaethol ynghylch llifogydd yn debygol o newid wrth fabwysiadu'r TAN15 newydd, felly gellid bod angen diwygio'r polisi p'run bynnag i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol.

### **10. A yw Polisiâu CCH6 a CCH7 yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer rheoli ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn datblygiadau newydd a fforestydd, coetiroedd a phlannu Coed? A yw gofynion y polisiâu'n cael eu mynegi'n glir?**

Ystyrir bod y ddau bolisi yn darparu mecanweithiau priodol ar gyfer bwriad y polisi, a bod y naill a'r llall wedi'u mynegi'n glir.

Mae Polisi CCH6 yn bolisi allweddol er mwyn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'r polisi wedi'i anelu'n bennaf at ddatblygiadau pwysig graddfa fawr, ac yn ceisio sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn ymgorffori ynni adnewyddadwy a charbon isel, ac yn rhoi ystyriaeth i hynny. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i ychwanegu at fanylion a gofynion y polisi.

Mae Polisi CCH7 yn ceisio cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gynyddu gorchudd coetir. Mae'r polisi yn cefnogi cynigion sy'n creu ac yn gwarchod coetir, coedwigoedd, lleiniau coed a choridorau newydd. Mewn ymateb i sylwadau a gafwyd gan CNC, gellid ystyried cynnwys rheoli perygl llifogydd o fewn y polisi, a'r angen i sicrhau bod coed yn cael eu plannu ar safleoedd priodol.

## *Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd*

### **11. A yw Polisi SP17 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer integreiddio a chydlynu mesurau trafndiaeth cynaliadwy a chynllunio defnydd tir? Ac a yw gofynion Polisi TRA2 yn cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ydy, mae Polisi SP17 yn darparu fframwaith clir a chyson. Mae'n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol drwy bwysleisio y dylid integreiddio mesurau trafndiaeth gynaliadwy wrth gynllunio defnydd tir. Mae'r polisi'n cefnogi lleihau dibyniaeth ar geir preifat, gwella trafndiaeth gyhoeddus, a hyrwyddo teithio llesol (cerdded a beicio). Mae'r dull hwn yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n ceisio sicrhau mai cerdded a beicio yw'r opsiynau a ffefrir ar gyfer teithiau byrrach. Drwy ganolbwyntio ar hygyrchedd a chysylltedd o fewn aneddiadau ac ymgorffori datrysiadau modern fel Polisi CCH3 Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan, mae Polisi SP17 yn sicrhau bod cynlluniau trafndiaeth wedi'u hintegreiddio'n dda â datblygu defnydd tir, gan hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Ydy, mae Polisi TRA2 wedi'i gyfleu'n glir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol. Mae'r polisi'n cyd-fynd â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 drwy ganolbwyntio ar wella'r seilwaith cerdded a beicio. Mae'n gorchymyn y dylid cynnwys llwybrau diogel a deniadol a chyfleusterau hanfodol fel manau parcio beiciau diogel mewn datblygiadau newydd, sy'n gyson â'r safonau cenedlaethol a amlinellir yng nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r polisi hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio seilwaith teithio llesol yn gynnar yn y broses o ddatblygu, gan sicrhau bod cerdded a beicio yn opsiynau ymarferol a deniadol o'r cychwyn cyntaf. Drwy hyrwyddo cysylltiad datblygiadau newydd â rhwydweithiau teithio llesol sy'n bodoli eisoes a chyfrannu at eu hehangu, mae Polisi TRA2 yn cefnogi nodau cenedlaethol i greu amgylcheddau hygyrch â chysylltiadau da ar gyfer teithio llesol.

#### **a) Sut y bydd darparu lleoedd parcio yn cael ei reoli?**

Nid yw'r Cynllun yn cynnwys polisi sy'n trafod lleoedd parcio yn benodol. Mae canllawiau polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (TAN18) yn rhoi arweiniad i'r polisi cenedlaethol. Fodd bynnag, os ystyrir y byddai arweiniad pellach yn fuddiol er mwyn penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, gellid cynnwys polisi yn y CDLI Diwygiedig a chynnwys safonau parcio ychwanegol ar ffurf CCA.

## *Mwynau a Gwastraff*

### **12. A yw Polisiâu SP18, MR1, MR2 ac MR3 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli adnoddau mwynau yn y Sir?**

Lluniwyd y polisiâu mwynau o fewn y Cynllun i gyd-fynd â pholisi cenedlaethol, sef Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs) - MTAN1: Agregau ac MTAN2: Glo.

Polisi SP18: Adnoddau Mwynol yw'r polisi strategol ar gyfer mwynau yn y Cynllun ac mae'n cynnwys holl brif elfennau cynllunio mwynau o fewn polisi hollgynhwysol. Mae tri pholisi arall yn ymdrin â meysydd pwnc mwy penodol. Mae Polisi MR1 Cynigion Mwynau yn cynnwys meini prawf cadarn ar gyfer asesu cynigion mwynau newydd; Mae gan Bolisi MR2 Clustogfeydd rôl ddeuol o ddiogelu safleoedd mwynau rhag mathau eraill o ddatblygiad, ac amddiffyn mathau sensitif o ddatblygiad rhag effeithiau negyddol posibl gwaith chwarel ar yr un pryd. Yn olaf, yn unol â PCC12, mae Polisi MR3 Ardaloedd Diogelu Mwynau yn darparu'r fframwaith ar gyfer amddiffyn adnoddau agregau a nodir ar Fap Diogelu Agregau BGS ar gyfer De-orllewin Cymru - sydd wedi cael ei atgynhyrchu ar Fap Cyfyngiadau'r CDLI.

Ystyrir bod y pedwar polisi hyn yn cynrychioli fframwaith digon cadarn a phriodol i ymdrin â phob agwedd ar reoli adnoddau mwynol yn y Sir.

### **13. A ddylid diwygio Polisi MR2 i gynnwys rhestr o'r holl safleoedd mwynau sydd â chaniatâd cynllunio presennol a'u clustogfeydd priodol?**

Mae rhestr o'r holl safleoedd mwynau sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol yn Atodiad 4, ac mae'r safleoedd (a'r clustogfeydd cysylltiedig) wedi'u nodi ar Fap Cynigion y CDLI. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r ffeithiau hyn wedi'u nodi ym Mholisi MR2. Er eglurder, gellid ychwanegu cyfeiriad at Bolisi MR2 yn esbonio lle gellir gweld y rhestr o safleoedd mwynau a'u clustogfeydd cysylltiedig yn y Cynllun.

### **14. A ddylai Atodiad 4 – Diwygio Safleoedd Mwynau Gweithredol a Segur i egluro'r tebygolrwydd y bydd safleoedd yn cael eu hailactifadu a'u gweithio yn ystod cyfnod y Cynllun?**

Mae Atodiad 4 yn rhestru'r holl safleoedd Mwynau yn y Sir y ceir caniatâd cynllunio arnynt, ac yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n weithredol/anweithredol neu'n segur.

Ystyrir y tebygolrwydd y bydd safleoedd Anweithredol yn cael eu hailactifadu yn rhan o'r broses Adolygu Hên Ganiatadau Mwynau (AHGM). Mae dyddiadau adolygu AHGM wedi'u nodi yn Adroddiadau SWRAWP. Os bernir bod angen, gellir



ychwanegu'r dyddiadau adolygu hyn at Atodiad 4 mewn colofn ochr yn ochr â'r safleoedd gweithredol/anweithredol.

O ran safleoedd Segur, mae'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu hailactifadu yn broses ailadroddus a gaiff ei adolygu'n gyfnodol gan y Tîm Cynllunio Mwynau a Gwastraff. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Awdurdod wedi cael caniatâd i gyflwyno Gorchmynion Gwahardd ar 5 safle Segur. Mae'r broses wedi'i hoedi oherwydd diddordeb posibl yn un o'r safleoedd, ond mae'n bosibl y cyflwynir Gorchmynion yn y dyfodol agos.

### **15. A yw Polisi SP19 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy? Sut a ble y bydd tir yn cael ei ddyrannu ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff?**

Mae Polisi SP19 wedi'i lunio'n unol â pholisi cenedlaethol a rhanbarthol ar wastraff, sef PCC12, TAN 21: Gwastraff; Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd; y strategaeth genedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* (y strategaeth wastraff genedlaethol yng Nghymru), a'r Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Yn ogystal â phennu nifer o feini prawf i sefydlu'r fframwaith a fydd yn hwyluso rheolaeth gynaliadwy ar wastraff, mae'r Polisi hefyd yn cynnwys darpariaeth i sicrhau na chaiff gwaith gwastraff effaith andwyol sylweddol ar iechyd y cyhoedd, trafndiaeth a'r amgylchedd, a bod y gwaith hwnnw'n gyson â defnyddiau cyfagos.

Nid yw'n ofynnol bellach i gynnwys darpariaeth ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn seiliedig ar dir a feddiannir (fel y nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, 2008, sydd bellach wedi'i ddisodli). Serch hynny, mae TAN 21 yn pwysleisio y dylid ystyried gofynion lleoli gosodiadau gwastraff wrth greu CDLlau.

Yn gyffredinol, mae cyfleusterau gwastraff yn perthyn i ddau fath o gategori - 'mewn adeilad' ac 'agored'. Yn sgil datblygiadau technolegol, mae TAN 21 yn pwysleisio bod llawer o gyfleusterau modern oddi mewn i adeiladau yn ymddangos yn debyg i unrhyw adeilad diwydiannol arall o'r tu allan, a bod y tu mewn i'r adeiladau hynny'n cynnwys prosesau diwydiannol nad ydynt o bosib yn wahanol i unrhyw weithgareddau diwydiannol modern o ran eu gweithrediad a'u heffaith. O ganlyniad i hyn, mae llawer o safleoedd cyflogaeth gyffredinol yn debygol o fod yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff. Mae Polisi SP19 yn cydnabod y ffaith hon, ac mae'r testun ategol yn nodi addasrwydd cyflogaeth gyffredinol (defnydd B2) ar gyfer cyfleusterau gwastraff posibl 'o fewn adeiladau' yn y dyfodol.

Mae'r Polisi hefyd yn cydnabod nad yw safleoedd cyflogaeth B2 yn addas ar gyfer gwaith gwastraff 'awyr agored' fel safleoedd tirlenwi a rhesgompostio agored. O ran tirlenwi, dylid darllen Polisi SP19 ar y cyd â Pholisi WM2 Cynigion Tirlenwi. Mae'r Polisi'n cydnabod nad oes angen datblygiadau tirlenwi pellach ar hyn o bryd (ar lefel

leol na rhanbarthol), ond yn rhoi cyfle yn y dyfodol am gyfleusterau o'r fath os bydd yr angen amdanynt yn codi. Nodir ynddo hefyd y gallai'r safle tirlenwi sydd ar hyn o bryd wedi'i roi o'r neilltu yn Nant-y-caws fod yn safle posibl i'r dyfodol. O ran y prif fath arall o gyfleusterau awyr agored - sef rhesgompostio agored, ceir cyfleuster gweithredol ar safle gwastraff Nant-y-caws, ac mae Polisi SP7 hefyd yn nodi'r potensial am gyfleusterau o'r fath ar ffurf cynlluniau arallgyfeirio ar ffermydd.

## **16. A ddylai Polisi PSD5 gyfeirio at 'gynllun rheoli deunyddiau naturiol'?**

Mae'r Economi Gylchol yn egwyddor allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru. Dylai dewisiadau ynghylch y defnydd o adnoddau materol fod yn seiliedig ar wneud y defnydd mwyaf priodol a chynaliadwy o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo egwyddorion economi gylchol. Ystyrir y bydd cyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol trwy Bolisi PSD5 yn ddull priodol o hwyluso'r gofynion hyn.

O dan y ddeddfwriaeth gwastraff gyfredol, ystyrir sgil-gynhyrchion pridd a gloddiwyd (a gynhyrchir yn ystod y gwaith adeiladu) yn wastraff oni ddangoswyd nad oes unrhyw angen, na bwriad i'w gwaredu. Bydd creu cynllun rheoli deunyddiau naturiol yn galluogi datblygwr i osgoi'r gofyniad am drwydded amgylcheddol neu esemptiad o reoliadau trwyddedu rheoliadau gwastraff, drwy roi'r flaenoriaeth i aildefnyddio ac ailgylchu'r deunyddiau hynny yn hytrach na'u gwaredu.

Cyfeirir at yr angen i gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol ym Mhara 5.12.4 PCC12. Nodwn fod Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at ddeunydd yn hytrach na 'deunyddiau', felly er eglurder gellir newid geiriad y polisi i adlewyrchu geiriad PCC.

Mae gwall teipio wedi'i nodi ym mhara. 11.311 o Bolisi PSD5, lle cyfeirir at y cynllun rheoli adnoddau naturiol. Mae angen newid hyn i gynllun rheoli deunydd naturiol.